

Julie Morgan AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-05-771
Ein cyf/Our ref: MA-P/JM/2435/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Gorffennaf 2019

Annywl Janet,

Yn ystod fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor ar 5 Mawrth, eglurais y newid i sut y bydd y cymorth, y mae rhai pobl anabl yng Nghymru wedi ei dderbyn drwy Grant Byw'n Annibynnol Cymru, yn cael ei drosglwyddo i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Pwrpas y newid hwnnw yw rhoi asesiad annibynnol i'r bobl nad ydynt yn fodlon ar ganlyniad eu hasesiad gofal, er mwyn iddynt gael barn rhywun arall. Rwyf yn ysgrifennu atoch yn awr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hynt y gwaith hwn.

Amgaeaf gopi o Ddatganiad Ysgrifenedig a gyhoeddais ar 18 Gorffennaf sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol. Fe welwch o'r wybodaeth honno faint o bobl sydd wedi mynegi diddordeb mewn cael asesiad gofal annibynnol hyd yn hyn. Byddwch hefyd yn nodi ein bod wedi penodi sefydliad i recriwtio'r gweithwyr cymdeithasol a fydd yn cynnal yr asesiadau hyn ac yn rheoli'r broses. Enw'r sefydliad yw ICS Assessment Services Ltd sydd â phrofiad sylweddol ym maes asesiadau gofal a gofal cymdeithasol ar ôl gweithio'n helaeth â gwahanol awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr. Mae swyddogion bellach yn gweithio gyda chynrychiolwyr o ICS ac awdurdodau lleol i gytuno ar y manylion ymarferol ar gyfer cynnal yr asesiadau hyn, er mwyn dechrau arnynt cyn gynted â phosibl.

Fel y dywedaf yn fy natganiad, rwy'n cydnabod ei bod wedi cymryd amser i sefydlu'r trefniadau hyn. Fodd bynnag, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi trefniadau ar waith sydd wedi'u hystyried yn briodol. Mae'r ymgyrch #Achub Grant Byw'n Annibynnol Cymru wedi bod yn gefnogol iawn i'r camau yr wyf yn eu cymryd, gan ein bod i gyd yn cytuno bod angen i'r newidiadau gael eu gweithredu'n gywir.

Yn gwyr,

Julie Morgan AC/AM

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.